

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS
FAWRTH 14EG IONAWR 2014 YN YSGOL RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Clwyd Thomas (Cadeirydd), Mike Denman, Gwyn Howatson, Medwyn Jones, Sian Davies, Deryl Roberts, Ian Hession, Brynle Lloyd, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 12fed Tachwedd 2013 a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Adroddwyd y Clerc nid oedd yna ymgeisydd i'r Sedd Wag ar y Cyngor.

Penderfynwyd yr Aelodau i gyfethol Mr Dewi Roberts, Bodynys, Rhewl i lenwi'r Sedd Wag ar y Cyngor.

B. Derbyniwyd ymateb gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn cadarnhau bod y broblem parcio moduron ar stadau tai yn Rhewl yn dŵad o dan ofalaeth yr Heddlu.

C. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Mike Denman bod y Cyngor Cymuned wedi derbyn ymateb gan Swayne Johnson, Cyfreithwyr, ar ran Cymdeithas Tai Clwyd ynglŷn ar dir yr Eglwys yn Rhewl. Yr unig awgrym oedd gan y Cyngor i dynnu sylw perchnogion lleol o'r cyngor Swayne Johnson ac os mae'r Eglwys yn cael ei thynnu lawr fe ofynni'r am ran o'r Eglwys bodoli er cof.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £7,450.00.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r Precept 2013/14 - £2,413.00.

C. Precept 2014/15 y Cyngor - Penderfynwyd ar £24.00 y Preswyl sydd yn cynhyrchu incwm o £7,896.00.

D. Penderfynwyd yr Aelodau i dderbyn grant o £500.00 gan Gyngor Sir Ddinbych tuag at gostau'r Wefan y Cyngor.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Cais amlinell i ddatblygu darn o dir i adeiladu yn Rhyd-y-Byll, Rhewl - dim gwrthwynebiad.

B. Tyrbin Wynt yn Fferm Golflinks, Rhewl - dim gwrthwynebiad.

C. Estyniad (Conservatory) yn 14 Bro Clywedog, Rhewl - dim gwrthwynebiad.

D. Estyniad i Pen-y-Garth, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

E. Datblygiad o 10 preswyl ac yn y blaen ar dir wrth Hafod Ynys, Rhewl - Penderfynwyd ar y sylwad o newid y mynediad o'r safle gyferbyn ar Ysgol Rhewl i'r ffordd y Capel yn Rhewl.

6. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

Nodwyd y Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry'r ffyrdd sydd angen sylw gwaith arnynt a chytunodd ar gyfarfod safle gyda'r Cyngorydd Gwyn Howatson.